OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 1179 (Cy. 238)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU
# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *13 Tachwedd 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *15 Tachwedd 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Rhagfyr 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn, gyda chydsyniad y Trysorlys, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018.

(2) Deuant i rym ar 10 Rhagfyr 2018.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Gorchymyn 2018" yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018(**3**).

(**1**) 1973 p. 51 diwygiwyd is-adran (1) gan O.S. 2011/1043.
(**2**) Yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**3**) O.S. 2018/1064 (Cy. 223).

# RHAN 2

## Ffioedd sy'n ymwneud ag iechyd planhigion

### Ffioedd arolygu mewnforio

**3.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â llwyth o drydedd wlad sydd ar ffurf planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 1 a restrir yn Atodlen 5 i Orchymyn 2018.

(2) Mae'r ffioedd a ganlyn yn daladwy gan fewnforiwr llwyth o drydedd wlad—

(a) mewn cysylltiad â phob tystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n mynd gyda'r llwyth, ffi o £9.71;

(b) mewn cysylltiad â phob rhan o'r llwyth sydd ar ffurf planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 1 nad yw is-baragraff (c) yn gymwys iddi, y ffi a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw;

(c) mewn cysylltiad â phob rhan o'r llwyth sydd ar ffurf planhigyn neu gynnyrch planhigion o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 2 ac sy'n tarddu o wlad a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw, y ffi a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 3 o'r tabl hwnnw;

(d) pan fo arolygydd yn amau bod y llwyth wedi ei heintio â phla planhigion a reolir ac yn cymryd sampl o'r llwyth er mwyn cynnal profion labordy i gadarnhau pa un a yw'r pla yn bresennol ai peidio, ffi o £157.08 am bob sampl a brofir.

(3) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae i "pla planhigion a reolir" yr ystyr a roddir yn erthygl 32(7)(a) o Orchymyn 2018;

(b) ystyr "llwyth o drydedd wlad" yw llwyth a gyflwynir i Gymru o drydedd wlad;

(c) mae i "trydedd wlad" yr ystyr a roddir yn erthygl 2(1) o Orchymyn 2018.

### Ffioedd awdurdodiad pasbort planhigion

**4.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodiad pasbort planhigion.

(2) Mae'r ffioedd a bennir yn y tabl yn Atodlen 3 yn daladwy mewn cysylltiad ag arolygiad ac unrhyw weithgareddau cysylltiedig a gynhelir—

(a) mewn cysylltiad â chais am awdurdodiad pasbort planhigion;

(b) at ddiben monitro a gydymffurfir ag unrhyw ofynion a osodir ar ddeiliad awdurdodiad pasbort planhigion.

(3) Mae'r ffioedd a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 3 yn daladwy am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw) a dreulir yn cynnal yr arolygiad ac unrhyw weithgareddau cysylltiedig yn y fangre berthnasol, yn ddarostyngedig i'r isafswm ffioedd a bennir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 3 o'r tabl hwnnw.

(4) Mae ffi ychwanegol o £18.78 yn daladwy pan fo person yn cyflwyno cais ar bapur (ac nid ar-lein) am awdurdodiad pasbort planhigion.

(5) Mae unrhyw ffioedd sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yn daladwy gan y person sy'n gwneud cais am awdurdodiad pasbort planhigion neu gan ddeiliad awdurdodiad pasbort planhigion (yn ôl y digwydd).

(6) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr “awdurdodiad pasbort planhigion” yw awdurdodiad i ddyroddi pasbortau planhigion a roddir o dan erthygl 29 o Orchymyn 2018;

(b) ystyr “mangre berthnasol”, mewn perthynas â chais am awdurdodiad pasbort planhigion neu ag awdurdodiad pasbort planhigion, yw’r fangre sy’n destun y cais neu’r awdurdodiad.

### Ffioedd trwydded iechyd planhigion

**5.**—(1) Mae’r ffioedd a bennir yn y tabl yn Atodlen 4 yn daladwy mewn cysylltiad ag—

(a) cais am drwydded;

(b) unrhyw weithgaredd arall a bennir yng ngholofn 1 o’r tabl hwnnw a gynhelir mewn cysylltiad â thrwydded.

(2) Swm unrhyw ffi sy’n daladwy mewn cysylltiad â chais am drwydded neu unrhyw weithgaredd arall a bennir yng ngholofn 1 o’r tabl yn Atodlen 4 yw’r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 3 o’r tabl hwnnw, y’i canfyddir yn unol â’r cofnodion mewn cysylltiad â’r gwasanaeth hwnnw (os oes rhai) yng ngholofn 2 o’r tabl hwnnw.

(3) Mae’r ffi sy’n daladwy mewn cysylltiad â monitro telerau ac amodau’r drwydded yn daladwy am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o’r cyfnod hwnnw) a dreulir yn cynnal yr arolygiad ac unrhyw weithgareddau cysylltiedig yn y fangre sy’n ddarostyngedig i’r drwydded, yn ddarostyngedig i’r isafswm ffioedd a bennir.

(4) Mae unrhyw ffi sy’n daladwy o dan y rheoliad hwn yn daladwy gan y person sy’n cyflwyno cais am drwydded neu ddeiliad y drwydded (yn ôl y digwydd).

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr “trwydded” yw trwydded a ddisgrifir yn erthygl 40 neu 41 o Orchymyn 2018.

### Tatws sy’n tarddu o’r Aifft: ffi

**6.**—(1) Pan fo arolygydd yn cymryd sampl o datws sy’n tarddu o’r Aifft er mwyn canfod, at ddibenion paragraff 5 o’r Atodiad i’r Penderfyniad, pa un a yw’r tatws hynny wedi eu heintio â *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al., rhaid i’r mewnforiwr dalu ffi o £60.40 mewn cysylltiad â phob lot a samplir.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr “y Penderfyniad” yw Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2011/787/EU sy’n awdurdodi dros dro Aelod Wladwriaethau i gymryd camau brys i atal lledaeniad *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al. o ran yr Aifft(**4**).

### Tatws sy’n tarddu o Libanus: ffi

**7.**—(1) Pan fo arolygydd yn cymryd sampl o datws sy’n tarddu o Libanus er mwyn canfod, at ddibenion Erthygl 4 o’r Penderfyniad, pa un a yw’r tatws hynny wedi eu heintio ag is-rywogaethau *Clavibacter michiganensis* (Spieckerann a Kotthoff) Davis et al., rhaid i’r mewnforiwr dalu ffi o £60.40 mewn cysylltiad â phob lot a samplir.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr “y Penderfyniad” yw Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2013/413/EU sy’n awdurdodi Aelod Wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymiadau rhag darpariaethau penodol Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn cysylltiad â thatws, ac eithrio tatws a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy’n tarddu o ranbarthau Akkar a Bekaa, Libanus(**5**).

(**4**) OJ Rhif L 319, 2.12.2011, t. 112.
(**5**) OJ Rhif L 205, 1.8.2013, t. 13, fel y’i diwygiwyd gan Benderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2015/2057 (OJ Rhif L 300, 17.11.2015, t. 43).

# RHAN 3

## Ffioedd sy'n ymwneud ag ardystio tatws hadyd a phlanhigion ffrwythau a deunydd lluosogi planhigion ffrwythau

### Tatws hadyd: ffioedd

**8.**—(1) Mae'r ffioedd a bennir yn y tabl yn Atodlen 5 yn daladwy mewn cysylltiad â'r gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl hwnnw sy'n ymwneud â chais i ardystio tatws hadyd yn unol â rheoliad 10 o Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016(**6**).

(2) Mae'r ffioedd a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 5 yn daladwy yn ddarostyngedig i'r isafswm ffioedd (os oes un) a bennir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 3 o'r tabl hwnnw.

(3) Mae'r ffioedd a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 5 mewn cysylltiad ag arolygiad o gnydau sy'n tyfu i'w hardystio yn radd PBTC yr Undeb ac arolygiad o gloron a gynaeafwyd yn daladwy am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw) a dreulir yn cynnal yr arolygiad ac unrhyw weithgareddau cysylltiedig yn y fangre berthnasol.

(4) Mae ffi ychwanegol o £14.76 yn daladwy pan fo person yn cyflwyno cais ar bapur (ac nid ar-lein) i ardystio tatws hadyd.

(5) Mae unrhyw ffioedd sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yn daladwy gan y ceisydd.

(6) Ym mharagraff (3), ystyr "mangre berthnasol" yw'r fangre lle y mae'r cnydau sy'n tyfu i'w hardystio yn radd PBTC yr Undeb neu'r cloron a gynaeafwyd sydd i'w harolygu wedi eu lleoli.

### Planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi planhigion ffrwythau: ffioedd

**9.**—(1) Mae'r ffi a bennir ym mharagraff (2) yn daladwy mewn cysylltiad â chais i ardystio planhigion ffrwythau a deunyddiau lluosogi planhigion ffrwythau yn unol â rheoliad 9 o Reoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017(**7**).

(2) Mae ffi o £72.00 yr awr (neu ran o'r cyfnod hwnnw) yn daladwy mewn cysylltiad â'r amser a dreulir yn cynnal archwiliad swyddogol ac unrhyw weithgareddau cysylltiedig yn y fangre berthnasol at ddibenion ardystio'r deunydd.

(3) Mae unrhyw ffioedd sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn yn daladwy gan y ceisydd.

(4) Ym mharagraff (2), ystyr "mangre berthnasol" yw'r fangre lle y mae'r deunydd sydd i'w ardystio wedi ei leoli.

# RHAN 4

## Talu'r ffioedd

### Talu'r ffioedd

**10.** Mae'r ffioedd sy'n daladwy o dan y Rheoliadau hyn yn daladwy i Weinidogion Cymru ar orchymyn.

(**6**) O.S. 2016/106 (Cy. 52), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**7**) O.S. 2017/691 (Cy. 163).

**Atal dros dro gofrestriad**

**11.**—(1) Pan fo unrhyw swm sy'n daladwy drwy, neu mewn perthynas ag, unrhyw ffi neu unrhyw ran o ffi sy'n daladwy gan fasnachwr planhigion cofrestredig o dan Ran 2 o'r Rheoliadau hyn dal heb ei dalu, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) adennill y swm fel dyled sifil, neu

(b) ar ôl rhoi un mis o rybudd ysgrifenedig, atal cofrestriad y masnachwr hyd nes bod y swm hwnnw wedi ei dalu.

(2) Ym mharagraff (1), mae i "cofrestredig" ("*registered*"), "cofrestru" ("*registration*") a "masnachwr planhigion" ("*plant trader*") yr ystyron a roddir iddynt yn erthygl 2(1) o Orchymyn 2018.

# RHAN 5

## Dirymiadau

**Dirymiadau**

**12.** Mae'r offerynnau a restrir yn Atodlen 6 wedi eu dirymu.

*Hannah Blythyn*
Gweinidog yr Amgylchedd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

13 Tachwedd 2018

## ATODLEN 1

Rheoliad 3(1)

Ffioedd arolygu mewnforio

| *Colofn 1*<br><br>*Planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall* | *Colofn 2*<br><br>*Ffi (£)* |
|---|---|
| Torion, egin blanhigion (ac eithrio deunydd lluosogi coedwigaeth), planhigion ifanc mefus neu lysiau | 139.84 |
| Llwyni, coed (ac eithrio coed Nadolig wedi eu torri), planhigion meithrinfa prennaidd eraill gan gynnwys deunydd lluosogi coedwigaeth (ac eithrio had) | 152.41 |
| Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron, a fwriedir ar gyfer eu plannu (ac eithrio cloron tatws) | 233.18 |
| Hadau, meithriniad meinwe | 117.81 |
| Planhigion eraill a fwriedir ar gyfer eu plannu, nas pennir yn unman arall yn y tabl hwn | 152.41 |
| Blodau wedi eu torri | 33.42 |
| Canghennau gyda deiliant, rhannau o goed conwydd (ac eithrio coed Nadolig sydd wedi eu torri) | 64.67 |
| Coed Nadolig wedi eu torri | 122.89 |
| Dail planhigion, megis perlysiau, sbeisys a llysiau deiliog | 75.30 |
| Ffrwythau, llysiau (ac eithrio llysiau deiliog) | 57.45 |
| Cloron tatws | 156.63 |
| Pridd a chyfrwng tyfu, rhisgl | 122.85 |
| Grawn | 133.23 |
| Planhigion eraill neu gynhyrchion planhigion eraill nas pennir yn unman arall yn y tabl hwn, ac eithrio coed fforestydd | 11.16 |

## ATODLEN 2

Rheoliad 3(2)(c)

Ffioedd arolygu mewnforio: cyfraddau gostyngol

| *Colofn 1*<br><br>*Genws* | *Colofn 2*<br><br>*Gwlad tarddiad* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi (£)* |
|---|---|---|
| **Blodau wedi eu torri** | | |

| *Colofn 1*<br><br>*Genws* | *Colofn 2*<br><br>*Gwlad tarddiad* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi (£)* |
|---|---|---|
| *Aster* | Zimbabwe | 25.07 |
| *Dianthus* | Colombia | 1.00 |
| | Ecuador | 5.01 |
| | Kenya | 1.67 |
| | Twrci | 5.01 |
| *Rosa* | Colombia | 1.00 |
| | Ecuador | 1.00 |
| | Ethiopia | 1.67 |
| | Kenya | 1.67 |
| | Tanzania | 5.01 |
| | Zambia | 3.34 |
| **Canghennau gyda deiliant** | | |
| *Phoenix* | Costa Rica | 22.63 |
| **Ffrwythau** | | |
| Citrus | Moroco | 2.87 |
| | Periw | 5.74 |
| | Twrci | 1.72 |
| | UDA | 8.62 |
| Citrus limon a citrus aurantifolia | Israel | 14.36 |
| *Malus* | Yr Ariannin | 20.11 |
| | Brasil | 43.09 |
| | Chile | 2.87 |
| | Seland Newydd | 5.74 |
| | De Affrica | 2.87 |
| *Passiflora* | Colombia | 4.02 |
| | Kenya | 14.36 |
| | De Affrica | 20.11 |
| | Fiet-nam | 20.11 |
| | Zimbabwe | 28.73 |
| *Prunus* | Yr Ariannin | 43.09 |
| | Chile | 5.74 |
| | Moroco | 14.36 |

| *Colofn 1*<br><br>*Genws* | *Colofn 2*<br><br>*Gwlad tarddiad* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi (£)* |
|---|---|---|
| | Twrci | 20.11 |
| | UDA | 14.36 |
| *Prunus, ac eithrio prunus persica* | De Affrica | 2.87 |
| *Pyrus* | Yr Ariannin | 8.62 |
| | Chile | 8.62 |
| | Tsieina | 28.73 |
| | De Affrica | 5.74 |
| *Vaccinium* | Yr Ariannin | 14.36 |
| **Llysiau** | | |
| *Capsicum* | Moroco | 2.87 |
| *Lycopersicon* | Yr Ynysoedd Dedwydd | 2.87 |
| | Moroco | 2.87 |
| *Momordica* | Surinam | 20.11 |
| *Solanum melongena* | Kenya | 5.74 |
| | Twrci | 14.36 |

## ATODLEN 3

Rheoliad 4(2)

### Ffioedd awdurdodiad pasbort planhigion

Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cyfnod 1" yw'r cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019.

| *Colofn 1*<br><br>*Dyddiad yr arolygiad ac unrhyw weithgareddau cysylltiedig* | *Colofn 2*<br><br>*Ffi (£)* | *Colofn 3*<br><br>*Isafswm ffi (£)* |
|---|---|---|
| Pan fo dyddiad yr arolygiad a'r gweithgareddau cysylltiedig yn digwydd o fewn cyfnod 1 | 66.91 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw) | 133.82 |
| Pan fo dyddiad yr arolygiad a'r gweithgareddau cysylltiedig yn digwydd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019 | 73.85 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw) | 147.70 |

## ATODLEN 4

Rheoliad 5(1)

Ffioedd trwydded iechyd planhigion

Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cyfnod 1" yw'r cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019.

| *Colofn 1*<br><br>*Y math o gais neu arolygiad* | *Colofn 2*<br><br>*Dyddiad y cais* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi (£)* |
|---|---|---|
| Cais am drwydded at ddibenion gwyddonol neu dreialu, ac eithrio—<br><br>— trwydded mewn cysylltiad â dadansoddi pridd neu gyfrwng tyfu arall<br><br>— trwydded at ddibenion gwyddonol neu dreialu sy'n cwmpasu 5 neu ragor o eitemau | Yn achos cais a wneir yng nghyfnod 1 | 948.51 |
| | Yn achos cais a wneir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019 | 995.36 |
| Cais am drwydded at ddibenion gwyddonol neu dreialu sy'n cwmpasu 5 neu ragor o eitemau | Yn achos cais a wneir yng nghyfnod 1 | 948.51, plws 52.45 am bob eitem dros 5 |
| | Yn achos cais a wneir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019 | 995.36, plws 52.45 am bob eitem dros 5 |
| Cais am drwydded mewn cysylltiad â dadansoddi pridd neu gyfrwng tyfu arall, ac eithrio trwydded mewn cysylltiad â dadansoddi pridd neu gyfrwng tyfu arall sy'n cwmpasu 5 neu r | Yn achos cais a wneir yng nghyfnod 1 | 705.20 |
| | Yn achos cais a wneir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019 | 745.41 |
| Cais am drwydded mewn cysylltiad â dadansoddi pridd neu gyfrwng tyfu arall sy'n cwmpasu 5 neu ragor o eitemau | Yn achos cais a wneir yng nghyfnod 1 | 705.20, plws 52.45 am bob eitem dros 5 |
| | Yn achos cais a wneir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019 | 745.41, plws 52.45 am bob eitem dros 5 |
| Cais i amrywio trwydded gyda newidiadau y mae asesiad gwyddonol neu dechnegol yn ofynnol ar eu cyfer | Yn achos cais a wneir yng nghyfnod 1 | 351.81 |
| | Yn achos cais a wneir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019 | 380.25 |
| Cais am unrhyw drwydded arall | — | 42.50 |
| Dyroddi llythyr awdurdodi blynyddol | — | 42.50 |

| *Colofn 1*<br><br>*Y math o gais neu arolygiad* | *Colofn 2*<br><br>*Dyddiad y cais* | *Colofn 3*<br><br>*Ffi (£)* |
|---|---|---|
| Monitro a gydymffurfir ag amodau a thelerau trwydded | — | 17.50 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw), yn ddarostyngedig i isafswm ffi o £35 |

## ATODLEN 5

Rheoliad 8(1)

### Tatws hadyd: ffioedd

| *Colofn 1*<br><br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br><br>*Ffi (£)* | *Colofn 3*<br><br>*Isafswm ffi (£)* |
|---|---|---|
| **Samplu a phrofi pridd ar gyfer Llyngyr Tatws** | | |
| Samplu a phrofi pridd at ddibenion paragraff 4, 7 neu 9 o Atodlen 1 i Reoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2016 | 21.53 am bob hectar (neu ran ohono) sy'n cael ei samplu a'i brofi | — |
| **Arolygu cnydau sy'n tyfu** | | |
| Ardystio yn datws hadyd cyn-sylfaenol: Gradd PBTC yr Undeb | 33.62 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw) | 67.24 |
| Ardystio yn datws hadyd cyn-sylfaenol: Gradd PB yr Undeb | 33.62 am bob ¼ hectar (neu ran ohono) a arolygir | 67.24 |
| Ardystio yn datws hadyd sylfaenol: Gradd S yr Undeb | 58.47 am bob ½ hectar (neu ran ohono) a arolygir | 116.94 |
| Ardystio yn datws hadyd sylfaenol: Gradd SE yr Undeb | 58.47 am bob ½ hectar (neu ran ohono) a arolygir | 116.94 |
| Ardystio yn datws hadyd sylfaenol: Gradd E yr Undeb | 57.17 am bob ½ hectar (neu ran ohono) a arolygir | 114.34 |
| Ardystio yn datws hadyd sylfaenol: Gradd A neu B yr Undeb | 51.97 am bob ½ hectar (neu ran ohono) a arolygir | 103.94 |
| **Arolygu cloron a gynaeafwyd** | | |
| Arolygu | 31.84 am bob cyfnod o 15 munud (neu ran o'r cyfnod hwnnw) | 63.69 |
| **Darparu labelau a seliau mewn cysylltiad â cheisiadau** | | |
| Labelau a seliau argraffedig | 0.48 am bob label/sêl | — |
| Labelau a seliau gwag | 0.12 am bob label/sêl | — |

## ATODLEN 6

Rheoliad 12

Dirymiadau

— Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) 2014(**8**).

— Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2015(**9**).

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn pennu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd planhigion ac ardystio tatws hadyd, planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi planhigion ffrwythau. Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Ffioedd Iechyd Planhigion (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1792 (Cy. 185)).

Mae'r ffioedd a bennir yn rheoliadau 3, 6 a 7 yn daladwy mewn perthynas â mewnforio planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill o drydydd gwledydd yn unol â gofynion Erthygl 13 o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ar fesurau gwarchod yn erbyn cyflwyno organeddau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion i'r Gymuned ac yn erbyn eu lledaenu o fewn y Gymuned (OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t. 1).

Mae'r ffioedd a bennir yn rheoliadau 4 a 5 yn daladwy mewn perthynas ag arolygiadau a gweithgareddau eraill a gynhelir yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC.

Mae'r ffioedd a bennir yn rheoliad 8 yn daladwy mewn perthynas ag arolygiadau penodol a gweithgareddau eraill a gynhelir yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2002/56/EC ar farchnata tatws hadyd (OJ Rhif L 193, 20.7.2002, t. 60).

Mae'r ffioedd a bennir yn rheoliad 9 yn daladwy mewn perthynas ag arolygiadau penodol a gweithgareddau eraill a gynhelir yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2008/90/EC ar farchnata deunydd lluosogi planhigion ffrwythau a phlanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ffrwythau (OJ Rhif L 267, 8.10.2008, t. 8).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

(**8**) O.S. 2014/1792 (Cy. 185), a ddiwygiwyd gan O.S. 2015/777 (Cy. 61).
(**9**) O.S. 2015/777 (Cy. 61).